

Helpwch ni i wella'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rolau'r diwydiant sgrin

Trosolwg

Mae ScreenSkills yn ceisio adborth gan y diwydiant o ganlyniad i ddiweddarau'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n llywio datblygiad cymwysterau a phrentisiaethau yn y diwydiannau sgrin.

Yn ystod yr hydref hwn, rydym yn bwriadu ymgynghori gyda gweithwyr proffesiynol ledled y DU ynghylch y cymwyseddau, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithio mewn rolau sy'n ymwneud â chrefftau a chynyrchiadau yn y diwydiannau sgrin. Byddwn yn cyflawni hyn er mwyn diweddarau'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol presennol i adlewyrchu disgwyliadau gweithwyr y diwydiant ar hyn o bryd.

Byddwn yn adolygu ac yn diweddarau'r safonau canlynol:

- **Safonau Effeithiau Gweledol** – sy'n rhestru'r sgiliau ymarferol a'r wybodaeth i greu, addasu, neu wella delweddau ar gyfer cyfryngau symudol. Mae hyn yn ymwneud â chyfuno ffilm gweithredu byw a chynnwys a gynhyrchir gan gyfrifiadur (CG) i greu delweddau, sy'n edrych yn realistig ond a fyddai'n beryglus, yn ddrud neu'n amhosibl i'w ffilmio yn ystod ffilmio gweithredu byw, megis ffrwydriadau, damweiniau car neu lifogydd mewn dinasoedd.
- **Safonau Effeithiau Arbennig Corfforol (PSFX)** – sy'n rhestru'r sgiliau ymarferol a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol wrth greu effeithiau corfforol megis amodau tywydd, tanau a ffrwydriadau, yn unol â'r gofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol.
- **Sgiliau Cyffredinol Cyfryngau Creadigol** – sy'n rhestru'r sgiliau ymarferol a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithio yn y diwydiannau creadigol a hynny mewn meysydd allweddol megis gweithio fel tîm, rheoli prosiectau, rheoli a marchnata eich hun – caiff y gwaith ar y safonau hyn ei gyflawni drwy'r adolygiadau safonol eraill.
- **Creu Cynnwys Radio a Sain** – sy'n rhestru'r sgiliau ymarferol a'r wybodaeth sydd eu hangen i greu, defnyddio a chyflawni cynnwys mewn sefydliadau radio a sain megis podlediadau, rhaglenni, newyddion byw a darllediadau chwaraeon, cyngherddau a chynyrchiadau drama.

Er mwyn sicrhau bod y gyfres ddiweddaraf o safonau'n ymdrin â'r hynny a ystyrir yn arfer gorau yn y diwydiant yn bresennol, rydym yn annog gweithwyr proffesiynol y diwydiant i rannu eu barn ynghylch y safonau drafft hyn drwy gyflwyno adborth am yr adrannau sy'n berthnasol iddyn nhw erbyn **hanner dydd ar Ionawr yr 16^{eg} 2024.**

Gofynnwn yn garedig ichi fwrw golwg ar y safonau a chynnig sylwadau yn eu cylch drwy glicio'r dolenni isod:

[Effeithiau arbennig corfforol PSFX](#)

[Effeithiau gweledol VFX](#)

[Sgiliau Cyffredinol Cyfryngau Creadigol](#)

[Creu Cynnwys Radio a Sain](#)

Cofiwch holi eich cydweithwyr a'r gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'ch rhwydweithiau, a allai fod yn awyddus i leisio'u barn, i gyfrannu tuag at yr ymgynghoriad hwn.

ScreenSkills, Tachwedd 2023

Diolch ymlaen llaw am roi o'ch amser.

Cysylltwch gyda krisztina.biliczky@screenskills.com i wybod mwy neu i rannu eich barn ynghylch y safonau.